# Bwyd a Diod Cymru
## Clwstwr Prif Weithredwr
# Food & Drink Wales
## CEO Cluster








## Cefndir

Mae'r Clwstwr CEO wedi'i lansio fel rhan o raglen datblygu clystyrau Llywodraeth Cymru. Yn ôl yr Athro Michael E. Porter o Ysgol Fusnes Harvard: "Mae clwstwr o gwmnïau a sefydliadau annibynnol, wedi'u cysylltu'n ffurfiol yn cynrychioli ffurf sefydliad cadarn sy'n cynnig manteision o ran effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a hyblygrwydd." Mae'n debyg mai Silicon Valley yng Nghaliffornia yw'r enghraifft fwyaf llwyddiannus o glwstwr diwydiant.

## Cwmpas y Clwstwr

Amcanion allweddol y clwstwr yw helpu busnesau i gyflawni twf cyflym o ran gwerthiannau, elw a nifer o staff.

Bydd y clwstwr hwn yn apelio at gwmnïau sydd â thargedau twf uchelgeisiol. Gallai'r twf hwn gael ei lywio gan gyfuniad o ffactorau, gan gynnwys arloesi, sianelau gwerthu newydd a datblygu cynnyrch newydd, a gall ein gwaith ategu'r rhain i gyd.

Arloesi Bwyd Cymru sy'n arwain y clwstwr hwn ac mae'n cynnig adnodd unigryw ar gyfer y diwydiant bwyd a diod yng Nghymru.

## Gweithgareddau Clwstwr

Bydd cwmnïau yn elwa o gydweithio â chwmnïau eraill ac o gefnogaeth a ddarperir gan Arloesi Bwyd Cymru a Llywodraeth Cymru.

Bydd y fenter yn defnyddio nifer o ffurfiau a gallai gynnwys:

> Rhannu adnoddau (e.e. offer)

> Cyd-fentrau gwerthu (e.e. cydweithredu i gamu i farchnad allforio newydd)

> Mynediad at gipolygon marchnad (e.e. ymchwil i'r farchnad)

> Mynediad at wybodaeth clwstwr (e.e. Arbenigedd Arloesi Bwyd Cymru)

> Rhannu profiadau a gwersi a ddysgwyd.

## Cysylltwch â ni

Am ragor o wybodaeth am y clwstwr hwn cysylltwch ac arweinydd y clwstwr:

**Cyswllt Canolbarth Cymru - Natalie Fulstow**
**natalie.fulstow@ceredigion.gov.uk**
**07970 304697**

**Cyswllt Gogledd Cymru - Paul Roberts**
**paul.roberts@gllm.ac.uk**
**01248 383345**

**Cyswllt De Cymru - Martin Sutherland**
**msutherland@cardiffmet.ac.uk**
**02920 416228**